# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cefnfaes a drwy Zoom
**Nos Iau 25 Gorffennaf 2024 am 7 o'r gloch**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Mary Jones

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Bleddyn Williams

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. E Mary Jones.

**Ymddiheuriadau** – Y Cyng. Dyfrig Jones, Walter Williams, Rheinallt Puw, Catrin Wager, a Huw V Jones.

2. **Datgan Diddordeb**

Dim.

3. **Materion Brys**

**3.1 Cae Chwarae Pantdreiniog -** Adroddwyd fod y llawr presennol ddim yn addas, a bod y rhisgl ddim yn para'n hir iawn. Penderfynwyd bydd y Clerc yn gofyn i gontractwr i fynd allan i wneud yn saff, ac i edrych ar opsiynau eraill yn lle'r rhisgl. Nodwyd bydd y Clerc yn gallu cael caniatâd gan yr Is-bwyllgor Cyllid os oes gwariant sylweddol, gan nad oes cyfarfod cyffredinol hyd at ddiwedd mis Medi.
**3.2 Parcio Stryd Fawr -** Nodwyd fod problemau gyda unigolion yn parcio ar linellau dwbl rhwng yr hen fanc Midland a'r Tarw - y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd a gofyn iddynt ddanfon swyddog gorfodaeth i'r safle yn rheolaidd, y Clerc i gynnwys y Cyng. Rheinallt Puw. Y Clerc hefyd i nodi fod angen ail beintio'r llinellau.
**3.3 Llochesi Bws** – Nodwyd bydd y Clerc yn gofyn i'r Swyddog Cynnal glanhau'r llochesi i gyd o fewn y plwyf.

4. **Cofnodion**

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2024.

5. **Materion yn codi o'r Cofnodion**

**5.1 Llwybr y Llaw Feddyg, Parc Meurig -** Y les gwreiddiol angen ei adnewyddu, nid yw'r les presennol yn addas. Adroddwyd fod y Clerc wedi cael sgwrs gyda'r tirfeddiannwr a chytunwyd y byddent yn creu les newydd – ar y gweill.

**5.2 Glanhau'r Gofeb** - Adroddodd y Clerc fod cwmni arbenigol o ochrau Pwllheli wedi ymweld â'r safle a nawr yn disgwyl am ddyfynbris. Nodwyd bydd angen i'r Clerc drefnu i gael sgaffaldau ar y safle.
**5.3 Diffyg Plismona** – Adroddwyd fod y Clerc wedi cael sgwrs dros ffôn gyda Ian Roberts, Arolygydd Heddlu Gogledd Gwynedd. Yn dilyn y sgwrs, cytunwyd bydd y Mr Roberts yn cael gwahoddiad i gyfarfod mis Hydref.
**5.4 Cysgodfan Bws ger Maes Bleddyn –** Adroddodd y Clerc ei bod yn disgwyl am ychwaneg o wybodaeth gan Dafydd Wheldon Hughes o Gyngor Gwynedd, ac yno ystyried os yw'r lleoliad yn addas ar gyfer gosod cysgodfan bws – ar y gweill.
**5.5 Arwydd Ffordd Pant** - Adroddodd y Cyng. Neville Hughes ei fod wedi cael caniatâd gan berchnogion tŷ 11 Ffordd Pant i roi arwydd newydd ar dalcen y tŷ. Yn dilyn hyn, aeth y Clerc ymlaen i archebu a threfnu i osod arwydd newydd.
**5.6 Arwyddion Lon Pab** - Nodwyd fod yr arwyddion yma bellach wedi cael ei gosod.
**5.7 Cysgodfan Bws ger Pont Tŵr –** Adroddodd y Clerc ei fod wedi trefnu i wydr newydd gael ei gosod, gwaith wedi'i gwblhau gan gontractwr lleol.

**6. Llwybr Trawsnewid Partneriaeth Ogwen**
Cylchredwyd y ddogfen i'r holl aelodau cyn y cyfarfod. Cafodd yr aelodau eu syfrdanu hefo faint o waith gwych sydd yn cael ei wneud o fewn y dyffryn, a nodwyd pa mor falch oedd y cyngor o Bartneriaeth Ogwen. Gyda thristwch mawr y clywsom y bydd y prif weithredwr presennol, Meleri Davies yn gadael diwedd mis Medi.

**7. Mabwysiadwy dogfennau**
Penderfynwyd mabwysiadwu'r dogfennau isod:

- Rheolau Sefydlog
- Rheoliadau Ariannol
- Cod Ymddygiad.

Cytunwyd bydd y Clerc yn ail-ddanfon y tair dogfen arall drwy e-bost a'i ail gyflwyno yn cyfarfod mis Medi.

**8. Maes Parcio Gerlan**
Adroddwyd fod cyfreithiwr y Cyngor yn cael trafferth cysylltu â chyfreithiwr perchennog y tir - ar y gweill.

**9. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Gorffennaf 2024'
**9.1 Rheolwr Prosiectau Adfywio, Cyngor Gwynedd, Sesiwn galw i mewn cynllun canol tref Bethesda –** Penderfynwyd bydd y Clerc a'r Cyng. Walter Williams yn mynychu ar ran y Cyngor.
**9.2 Ysgol Dyffryn Ogwen – Cyfarfod Gwobrwyo Blynyddol Ysgol Dyffryn Ogwen 2024 –** Penderfynwyd bydd y Cyngor yn rhoi cyfraniad o £150 eto eleni.

**10. Penderfyniadau a Cheisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**
**C23/0207/13/CR**

| | |
|---|---|
| Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda | Addasiadau mewnol<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C24/0138/13/LL**

| | |
|---|---|
| 1 Yr Ardd Fawr, Ffordd Gerlan, Gerlan | Codi annedd deuluol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

**C24/0390/13/AC**

Spar Stores Stryd Fawr, Bethesda

Diwygiad i amod 2 o ganiatâd cynllunio C23/0547/13/LL ar gyfer creu man manwerthu a chanolfan dreftadaeth i ailddefnyddio adeilad SPAR a chodi estyniad tri llawr, er galluogi newidiadau i'r cynlluniau a gymeradwywyd i gynnwys gosod pwmp gwres ffynhonnell aer a phaneli ffotofoltaig, ac ychwanegu mwy o reiliau diogelwch.

**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C24/0454/13/DT**

35 Ffordd Llanllechid, Rachub,

Estyniad unllawr cefn arfaethedig

**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C24/0445/13/TC**

Dŵr Cymru, Gwaith Trin Carffosiaeth, Ffordd Bangor,

Tystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer datblygiad arfaethedig o fewn ardal weithredol GTDG Bethesda yn cynnwys offer uwchben y ddaear a seilwaith cysylltiedig (gan gynnwys set atgyfnerthu dŵr golchi; Trawsnewidydd; Gorsaf bwmpio dychwelyd hylif; gorsaf bwmpio x2; a thanc dal slwtsh); cynllun ffordd newydd gyda llwybrau cerdded; a seilwaith o dan y ddaear (gan gynnwys tyllau archwilio; siambrau x2; piblinellau; dwythellau; prif gyflenwad ymgodol gorsaf bwmpio a ffynhonnau gwlyb gyda phympiau; prif gyflenwad dŵr; a chyflenwad trydan)

**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C24/0444/13/LL**

Dŵr Cymru, Gwaith Trin Carffosiaeth Ffordd Bangor.

Cynnig i osod ciosg panel dosbarthu a chiosg canolfan rheoli moduron

**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C24/0452/21/CC**

Caravan Park & Country Club, Ogwen Bank,

Gwaith i goed sy’n destun Gorchymyn Gwarchod Coed

**Penderfyniad:** ar y gweill.

**<u>Ceisiadau</u>**

**C24/0540/13/TC**

Wenmar, Bron Arfon Ffordd Llwyn Bleddyn, Rachub

Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer parhau i ddefnyddio tir ar gyfer storio deunyddiau adeiladu peiriannau a

cherbydau; paratoi elfennau adeiledig ac ardal gweithdy
**Penderfyniad:** Dim sylw.

**11. Taliadau**
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| John Wyn Jones | Cyflog Gorffennaf | £396.20 |
| CThEM | TWE Gorffennaf | £99.20 |
| Partneriaeth Ogwen | Gwasanaeth Clercio a Datblygu Cymunedol | £27,540.54 |
| Partneriaeth Ogwen | Swyddog Cynnal Ebrill – Medi 2024 | £5,995.39 |
| Martin Ryder | Gwydr newydd Cysgodfan Bon Tŵr | £285.00 |
| Mathew Nottingham | Gwasanaeth Boeler Gorffwysfan | £108.00 |
| Partneriaeth Ogwen | Arwydd Ffordd Pant (JAF Graphics) | £49.00 |
| Scottish Power | Trydan Goleuadau Nadolig | £256.27 |
| T Shaw | Torri mynwent Coetmor | £420.00 |
| Cyngor Gwynedd | Archwiliad Mewnol | £330.00 |
| Un Llais Cymru | Aelodaeth 2024-25 | £911.00 |

**12. Crynodeb Llais Ogwan**
Nodwyd nid oes argraffiad Llais Ogwan yn ystod mis Awst, felly ni fydd angen crynodeb.